Canu! Canu! Canu!

Daeth criw da o blant, rhieni a staff at ei gilydd gan rannu lan i ganu carolau o amgylch y pentre. Casglwyd yr arian at achos da. Cafwyd croeso cynnes a casglwyd o gwmpas £150. Llawer o ddiolch i'r trigolion a fu mor hael wrth rai llai ffodus na ni dros gyfnod yr Ŵyl.

Dathlu'r Ŵyl

Eleni eto bu'r plant a'r staff yn brysur yn paratoi perfformiadau Nadolig. Cynhaliodd yr Iau noson o wasanaeth drwy gerddoriaeth, cân a darlleniadau yn yr Eglwys dan arweiniad Mr John a Mrs Carol Mitchell, gyda Mrs Louisa Phillips yn cyfeilio. Fe aeth y noson yn hwylus gyda pawb yn mwynhau a'r Eglwys yn llawn. Bu'r babanod yn perfformio stori 'Papa Panoff' trwy ddrama a chân. Cafwyd hwyl ar y noson gyda pawb yn cofio eu llinellau a'u symudiadau dan arweiniad Mrs Bethan James a Mrs Gill Saunders Jones. Mae si bod Mari Corn wedi sleifio i mewn ar y noson – a welodd rhywun hi tybed? Noson i'w chofio! Diolch i'r rhieni am fod mor barod i helpu gyda'r gwisgoedd a'r set.

2002

Ein dymuniadau gorau i holl ddarllenwyr y ***Tincer*** am Flwyddyn Newydd Dda.